ADRODDIAD AROLWG: GRANT CYFLAWNIAD LLEIAFRIFOEDD ETHNIG (EMAG) DEFNYDDIO ADNODDAU'N EFFEITHIOL

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW • Estyn Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 029 2044 6446 • Ffacs/Fax 029 2044 6448
E-bost/E-mail enquiries@estyn.gsi.gov.uk • http://www.estyn.gov.uk

Cynnwys

		Tudalen
1.	Cyflwyniad	2
2.	Cefndir	2
3.	Prif Ganfyddiadau	3
4	Argymhellion	4
5.	Safonau	5
6.	Ansawdd Addysg a Hyfforddiant	5
7.	Addysgu	5
8.	Asesu	7
9.	Diwallu anghenion dysgwyr	8
10.	Sefydlu	8
11.	SIY a AAA	8
12.	Arfarnu hyfforddiant	9
13.	Arweinyddiaeth a Rheolaeth	9
14.	Polisïau ar gyfer cydraddoldeb hiliol, SIY ac addysg amlddiwylliannol	10
15.	Nawdd EMAG	11
16.	Dyrannu staff i ysgolion	11
17.	Adnoddau ac adeiladau	12

© Hawlfraint y Goron 2003. Gellir atgynhyrchu'r adroddiad hwn yn gyfan neu'n rhannol at ddibenion anfasnachol ar yr amod na chaiff unrhyw ddarnau a ddyfynnir eu haddasu a'u bod yn hytrach yn dilyn y gwreiddiol air am air, ac y cydnabyddir ffynhonnell a dyddiad y dyfyniadau.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW
Ffôn: 02920 446446

ADRODDIAD AROLWG: GRANT CYFLAWNIAD LLEIAFRIFOEDD ETHNIG (EMAG) DEFNYDDIO ADNODDAU'N EFFEITHIOL

1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau o ymweliadau â 10 Awdurdod Addysg Lleol (AALlau) a sampl o ysgolion ar hyd a lled Cymru a gynhaliwyd gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant (AEM). Roedd yr arolygiadau'n canolbwyntio ar ansawdd y gwasanaethau EMAG a ddarperir ym mhob AALl ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion o leiafrifoedd ethnig mewn ysgolion a'r safonau a gyflawnir ganddynt.

Trwy gydol yr adroddiad hwn, mae SIY yn cyfeirio at y disgyblion hynny y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt ac mae EMAG yn cyfeirio at y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig, sy'n cynnwys disgyblion SIY yn ogystal â disgyblion eraill lleiafrifoedd ethnig y mae Saesneg yn iaith gyntaf iddynt ac mae perygl y byddant yn tangyflawni.

2. Cefndir

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu nawdd i AALlau ar gyfer cyflawniad lleiafrifoedd ethnig dan flaenoriaeth 5c GCAH, y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAG). Amcan EMAG yw gwella cyfle cyfartal mewn addysg i bob disgybl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Y nawdd ar gyfer 2003-2004 oedd £3.82 miliwn, a gwahoddwyd AALlau i wneud cais amdano. Gofynnwyd iddynt gyflwyno'r wybodaeth ganlynol i gefnogi eu cais:

- nifer y disgyblion SIY y mae angen cynhaliaeth arnynt;
- lefel gallu'r disgyblion mewn Saesneg fel a aseswyd ar fodel 5 cam y Cynulliad o gaffael SIY;
- y cyfnod allweddol a gyrhaeddwyd ganddynt yn y cwricwlwm; a
- chyfanswm y disgyblion lleiafrifoedd ethnig yn ysgolion yr AALl

Defnyddiwyd y wybodaeth hon mewn fformiwla i ddyrannu'r nawdd i AALlau.

Yn ogystal, darparodd y Cynulliad hyfforddiant yn y defnydd o'r model 5 cam o ddysgu SIY.

3. PRIF GANFYDDIADAU

- Nid oes cysondeb rhwng AALlau o ran y prosesau ar gyfer casglu'r data sydd ei angen i dderbyn nawdd EMAG.

- Ychydig iawn o AALlau sy'n dyrannu staff EMAG i ysgolion yn ôl fformiwla sy'n seiliedig ar niferoedd y disgyblion lleiafrifoedd ethnig sy'n mynychu ysgolion ac ar lefel eu meistrolaeth ar y Saesneg.

- Nid oes digon o gydweithrediad rhwng athrawon disgyblion SIY y brif ffrwd ac athrawon cynhaliaeth EMAG wrth gynllunio profiadau disgyblion.

- Mae'r rhan fwyaf o AALlau wedi paratoi llyfrynnau sy'n cofnodi cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion SIY yn erbyn y cyfnodau cenedlaethol mewn Saesneg. Maent fel arfer yn derbyn cynhaliaeth dda. Ni roddir digon o sylw i ddefnyddio canlyniadau asesiadau i ddadansoddi anghenion disgyblion, ac yn aml ni chaiff targedau eu diffinio'n ddigon clir.

- Ar y cyfan, nid yw gweithdrefnau a pholisïau ysgolion ac AALlau ar gyfer asesu disgyblion SIY, pan fydd amheuaeth a oes ganddynt angen addysgol arbennig, yn ddigon effeithiol.

- Pan gaiff arweinwyr a rheolwyr eu cynnwys yn uniongyrchol mewn rheoli a chyflwyno gwasanaethau EMAG, mae yna weledigaeth glir a rheolaeth strategol dda.

- Dengys nifer o benaethiaid lefel uchel o ymrwymiad i ddiwallu anghenion disgyblion lleiafrifoedd ethnig, ac maent yn gwerthfawrogi gweinyddiaeth a rheolaeth ganolog gwasanaethau EMAG.

- Mae diffyg y gweithdrefnau adolygu effeithiol ar hyn o bryd yn golygu nad yw rheolwyr yn gyffredinol yn gwybod beth yw cryfderau a gwendidau eu staff.

- Nid yw rheolwyr yn rhoi digon o bwyslais ar hyrwyddo ymwybyddiaeth hiliol a chytgord yn eu hardaloedd.

- Nid oes gan lawer o athrawon y brif ffrwd yr hyfforddiant na'r medrau i ddiwallu anghenion disgyblion SIY yn effeithiol.

- Dywed AALlau nad oes ganddynt ddigon o adnoddau i ymestyn y gwasanaeth i fynd i'r afael â materion yn ymwenud â chyflawniad lleiafrifoedd ethnig.

- Mae rhai AALlau ac ysgolion yn llwyddo i ddarparu adnoddau ychwanegol trwy chwilio am nawdd amgen ar gyfer mentrau y tu allan i'r ysgol a gwaith allgyrsiol gyda phobl ifanc sy'n ategu eu dysgu ffurfiol.

- Yn gyffredinol, nid oes digon o ymwybyddiaeth mewn AALlau ac ysgolion ynghylch materion cyflawniad ar gyfer disgyblion Affricanaidd Caribïaidd.

4. **Argymhellion**

Er mwyn hyrwyddo gwelliant pellach mewn ansawdd a safonau, dylai AALlau ac ysgolion sicrhau:

- bod yna systemau ar waith i sicrhau bod y data a gesglir ar gyfer nawdd EMAG yn gywir ac yn gyson;

- bod dyrannu staff EMAG i ysgolion yn seiliedig ar ffigurau cywir a fformiwla glir sydd yn perthnasu â chyfnodau dysgu SIY y Cynulliad.

- bod strategaethau ar waith i ymestyn hyfforddiant athrawon y brif ffrwd ar gyfer codi cyflawniad lleiafrifoedd ethnig;

- bod staff EMAG ac athrawon y brif ffrwd yn cynllunio ar y cyd i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion lleiafrifoedd ethnig;

- bod targedau unigol clir a phriodol yn cael eu gosod ar gyfer cyflawniad disgyblion lleiafrifoedd ethnig;

- bod staff EMAG yn cael eu monitro'n effeithiol;

- bod gan ysgolion bolisïau ar waith ar gyfer SIY, cydraddoldeb hiliol ac addysg amlddiwylliannol; a

- bod darpariaeth briodol i ddiwallu anghenion disgyblion Affricanaidd Caribïaidd.

5. SAFONAU

At ei gilydd, barnwyd bod y safonau yn y dosbarthiadau yn foddhaol. Roedd hyn mewn perthynas â dosbarthiadau o'r neilltu ar gyfer addysgu Saesneg arbenigol ac yn nosbarthiadau'r brif ffrwd lle'r oedd cynhaliaeth gan athro EMAG neu gynorthwy-ydd dwyieithog. Arsylwyd gwersi Saesneg ac ym mhynciau eraill y cwricwlwm.

Yn y dosbarthiadau a arolygwyd, mae'r nodweddion da o ran safonau cyflawniad yn cynnwys:

- lefelau uchel y cymhelliant a ddangoswyd gan fwyafrif y disgyblion, yn enwedig pan gânt wersi Saesneg o'r neilltu;

- hyder y disgyblion wrth iddynt geisio defnyddio geirfa newydd neu ffurfio brawddegau; a

- chynnydd cyson mewn medrau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu mewn dosbarthiadau Saesneg a'r defnydd da a wneir o'r medrau hyn i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ym mhynciau eraill y cwricwlwm.

Mae diffygion cyffredin y safonau yn y dosbarthiadau a arolygwyd yn cynnwys:

- diffyg diddordeb parhaus gan ddisgyblion am fod cyflymdra a chynnwys y gwaith yn rhy araf, ac nid yw wedi'i gydweddu'n addas â'u hanghenion;

- disgyblion heb fod yn cyflawni eu potensial am nad yw'r gwaith a ddarperir yn ddigon heriol; ac

- medrau llythrennedd heb fod yn datblygu yn gyfochrog â llafaredd disgyblion, er enghraifft, disgyblion yn medru egluro a thrafod syniadau allweddol y gwersi ar lafar ond yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig sy'n cael ei gopïo'n bennaf ac ond wedi'i ddeall yn rhannol.

Yn gyffredinol, nid oes digon o ymwybyddiaeth mewn AALlau ac ysgolion ynghylch materion yn ymwneud â chyflawniad disgyblion Affricanaidd Caribïaidd.

6. ANSAWDD ADDYSG A HYFFORDDIANT

7. Addysgu

Gwelwyd enghreifftiau o safonau da a safonau anfoddhaol mewn dosbarthiadau lle roedd disgyblion wedi'u tynnu o wersi ar gyfer addysgu Saesneg arbenigol ac yn nosbarthiadau'r brif ffrwd.

Mae nodweddion da o ran ansawdd yr addysgu yn y dosbarthiadau a arolygwyd yn cynnwys:

- datblygu ethos ystafell ddosbarth lle ceir disgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion, beth bynnag yw eu diwylliant neu eu hethnigrwydd, a lle mae disgyblion lleiafrifoedd ethnig yn cymryd rhan yn hyderus, heb fod arnynt ofn gwneud camgymeriadau;

- y gwaith wedi'i gydweddu'n dda ag anghenion amrywiol disgyblion fel ei fod yn ddigon heriol a diddordeb y disgyblion yn cael ei gynnal;

- holi da gan athrawon er mwyn gwella ac asesu dealltwriaeth disgyblion o ran geirfa a syniadau allweddol, a thynnu ar brofiadau'r disgyblion;

- sylw da i ddefnydd disgyblion o iaith mewn gweithgareddau dosbarth a gwaith ysgrifenedig a chywiro gofalus ac ystyriol pan fydd angen;

- pan gaiff disgyblion eu tynnu o'u gwersi ar gyfer gwersi Saesneg, gweithgareddau sy'n cynnal ac yn datblygu'n uniongyrchol y gwaith a wna'r disgyblion mewn pynciau eraill yn nosbarthiadau'r brif ffrwd;

- defnydd da o gynorthwywyr dwyieithog i helpu â'r gwaith yn nosbarthiadau'r brif ffrwd ar gyfer holi ac arwain disgyblion yn ogystal â gweithredu fel cyfieithydd yn ystod y wers a throsi geirfa bwnc; a

- defnydd priodol o iaith gyntaf disgyblion, er enghraifft, mewn arddangosfeydd dosbarth.

Mae diffygion cyffredin yn ansawdd yr addysgu yn y gwersi a arolygwyd yn cynnwys:

- diffyg amcanion clir ar gyfer dysgu disgyblion lleiafrifoedd ethnig yn nosbarthiadau'r brif ffrwd;

- yn nosbarthiadau'r brif ffrwd, gwersi heb fod wedi eu cynllunio na'u strwythuro'n briodol i ddiwallu anghenion penodol disgyblion SIY;

- mewn sesiynau o'r neilltu, y gwaith heb fod yn cydweddu'n ddigon agos â chynnydd a chyflawniad disgyblion SIY yn nosbarthiadau'r brif ffrwd;

- dim digon o ddefnydd o gyfathrebu di-eiriau fel lluniau a diagramau i ymestyn dealltwriaeth disgyblion ymhellach o'r iaith a ddefnyddir yn y dosbarth;

- dim digon o sylw i sicrhau bod y termau allweddol yn nosbarthiadau'r brif ffrwd wedi eu deall yn llwyr gan ddisgyblion SIY;

- dim digon o sylw yn nosbarthiadau'r brif ffrwd i gywiro'r camgymeriadau sy'n digwydd yn aml yng ngwaith llafar ac ysgrifenedig disgyblion SIY; ac

- diffyg her gan athrawon o safbwynt gosod tasgau ysgrifenedig sydd yn golygu copïo o destunau nad yw disgyblion ond yn eu deall yn rhannol.

Yn aml, mae'r diffygion yn digwydd oherwydd:

- nad oes digon o gydweithrediad rhwng athrawon disgyblion SIY yn y brif ffrwd ac athrawon cynhaliaeth EMAG wrth gynllunio profiadau disgyblion; neu

- nid yw athrawon dosbarth a phwnc disgyblion SIY nad ydynt yn cael cynhaliaeth ychwanegol yn glir ynghylch y strategaethau cynnal y gellir eu defnyddio.

Mae'r ddau bwynt uchod wedi eu nodi fel meysydd allweddol i fynd i'r afael â hwy er mwyn gwella ansawdd addysgu disgyblion SIY yn adroddiad Estyn ar y ddarpariaerth ar gyfer disgyblion SIY a gyhoeddwyd yn 2000[1].

8. Asesu

Mae gormod o amrywiaeth rhwng AALlau o ran cynnal asesiad cychwynnol o ddisgyblion SIY adeg cychwyn yn yr ysgol. Yn yr achosion gorau, mae athro cynhaliaeth yn cynnal asesiad manwl o anghenion medrau llafaredd a llythrennedd sy'n nodi'n fanwl lefel o gynhaliaeth sy'n ofynnol. Mae'r wybodaeth a geir o'r asesiad hwn yn darparu sylfaen manwl y gellir ei defnyddio i fesur cynnydd disgyblion yn rheolaidd. Mewn gormod o achosion, fodd bynnag, nid yw'r asesiad cychwynnol wedi'i strwythuro'n ddigon gofalus neu mae'n seiliedig ar ystod rhy gyfyng o fedrau iaith.

Yn gyffredinol, mae athrawon EMAG yn cynnal asesiadau rheolaidd o gynnydd mewn Saesneg yn erbyn model pum cam cenedlaethol Cymru.

Ar ôl yr asesiad cychwynnol, mae athrawon cynhaliaeth fel arfer yn asesu perfformiad disgyblion SIY mewn Saesneg yn rheolaidd. Mae rhai o'r asesiadau cychwynnol a dilynol wedi'u cysylltu â'r lefelau cyflawniad yng ngorchymyn statudol y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer Saesneg. Yn amlach na pheidio, fodd bynnag, mae'r asesiadau a gynhelir gan staff cynhaliaeth yn canolbwyntio ar gyflawniad yn erbyn y camau cenedlaethol, ac nid ydynt wedi'u cysylltu â gofynion y cwricwlwm cenedlaethol. O ganlyniad, nid yw'r asesiadau mor ddefnyddiol ag y gallent fod ar gyfer helpu athrawon dosbarth i gynllunio gwaith ar gyfer disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o AALlau wedi paratoi llyfrynnau ar gyfer cofnodi cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion SIY yn erbyn y camau cenedlaethol mewn Saesneg, ynghyd â chanlyniadau mewn asesiadau cwricwlwm cenedlaethol yn y pynciau craidd a chanlyniadau arholiadau cyhoeddus ar gyfer disgyblion hþn. Yn yr arfer orau, defnyddir y rhain i nodi llwyddiannau ac anawsterau penodol wrth ddysgu Saesneg, ac i ddyfeisio rhaglenni dysgu unigol ar gyfer disgyblion, sy'n cynnwys targedau clir ar gyfer cyflawniad. Er bod cofnodion da yn cael eu cadw fel arfer o gynnydd disgyblion, ni roddir digon o sylw i ddefnyddio canlyniadau asesiadau i ddadansoddi anghenion disgyblion, ac yn aml, nid yw'r targedau wedi'u diffinio'n ddigon clir.

9. Diwallu anghenion dysgwyr

[1] Safonau ac Ansawdd mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd: Darparu ar gyfer disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, Estyn, 2000

Ychydig ysgolion yn unig sy'n cynnal clybiau amser cinio neu glybiau ôl-ysgol yn benodol ar gyfer disgyblion o leiafrifoedd ethnig. Cred ysgolion ei bod yn gwneud lles i'r disgyblion hyn fynychu'r clybiau a ddarperir ar gyfer yr holl ddisgyblion. Fodd bynnag, ni chaiff presenoldeb disgyblion lleiafrifoedd ethnig yn y clybiau hyn ei fonitro'n effeithiol.

Mae rhai ysgolion yn amrywio'n briodol pa wersi y maent yn tynnu disgyblion ohonynt. Mae hyn yn sicrhau nad yw disgyblion yn colli'r un pwnc bob wythnos. Er bod ysgolion sy'n cael cynhaliaeth beripatetig wedi'u cyfyngu gan yr amseroedd y gall athrawon EMAG fynychu, yn yr arfer orau, gwneir ymdrechion sylweddol i sicrhau nad yw disgyblion yn colli dosbarthiadau mewn un pwnc penodol yn aml i fynychu sesiynau o'r neilltu.

Mewn rhai ysgolion, mae staff EMAG yn cyfarfod yn rheolaidd â rhieni yn yr ysgol, yn mynychu nosweithiau rhieni ac yn trefnu ymweld â rhieni yn eu cartrefi. Mewn ysgolion eraill, teimla staff EMAG nad oes ganddynt ddigon o amser i wneud hyn oherwydd natur beripatetig eu rôl.

Gall staff EMAG mewn rhai ysgolion ddarparu trosiadau a cyfieithiadau a gweithredu fel cyfieithwyr, tra mae ysgolion eraill yn dibynnu ar ddisgyblion, ffrindiau a theuluoedd i gyfathrebu â rhieni. Mae nifer o ysgolion yn adrodd nad ydynt yn gallu talu i gyfieithu'r holl ddogfennau allweddol sydd ganddynt i famiaith y disgyblion lleiafrifoedd ethnig.

Mewn ysgolion sydd â niferoedd mawr o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig, mae dathliadau ac ymwybyddiaeth o amrywiaeth ddiwylliannol yn rheolaidd ac yn briodol. Mae hyn yn brin mewn ysgolion nad oes ganddynt lawer o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig.

10. Sefydlu

Mae gan rai ysgolion becynnau ar gyfer newydd-ddyfodiaid sy'n amlinellu gweithdrefnau'r ysgol. Mewn ysgolion a chanddynt niferoedd mawr o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig, mae'r rhain ar gael yn briodol mewn ieithoedd cymunedol. Mae bron pob ysgol hefyd yn defnyddio system 'cyfaill' lle clustnodir disgyblion i ddarparu cymorth ac arweiniad i newydd-ddyfodiaid.

11. SIY ac anghenion addysgol arbennig

Gwna rhai AALlau ddarpariaeth briodol ar gyfer asesu disgyblion SIY pan fydd amheuaeth fod ganddynt angen addysgol arbennig hefyd. Mewn un AALl, mae pob cydlynydd anghenion addysgol arbennig wedi cael hyfforddiant mewn SIY ac mae staff EMAG yn mynychu cyfarfodydd adolygu disgyblion. Mewn AALl arall, mae seicolegwyr addysg wedi cael hyfforddiant gan y gwasanaeth EMAG, ac mae cynrychiolwyr y gwasanaeth yn mynychu pob cyfarfod cyfeirio/adolygu. Ar y cyfan, fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau a pholisïau ysgolion ac AALlau ar gyfer asesu disgyblion SIY, y mae amheuaeth fod ganddynt angen addysgol arbennig, yn ddigon effeithiol.

12. Arfarnu hyfforddiant

Yn gyffredinol, mae'r hyfforddiant a ddarperir ar gyfer staff EMAG yn dda, ond nid oes digon o hyfforddiant ar gyfer casglu data ac asesu camau dysgu iaith. Mae gan rai athrawon y brif ffrwd yr hyfforddiant neu'r medrau i ddiwallu anghenion disgyblion SIY yn effeithiol. Er bod yr awdurdodau mwy yn cynnig cyrsiau o ansawdd da ar adegau amrywiol, nid yw llawer o'r staff sy'n addysgu disgyblion SIY yn eu mynychu. Nid yw staff addysgu'r brif ffrwd yn gweld hyn fel blaenoriaeth ar gyfer eu datblygiad personol neu eu datblygiad proffesiynol, ac felly nid ydynt yn mynd ar y cyrsiau.

Mae'r awdurdodau a chanddynt wasanaethau EMAG mawr yn cynnig ystod eang o gyfleoedd i'r staff fynychu datblygiad proffesiynol trwy HMS a dysgu o bell ar gyrsiau sy'n cael eu cynnal o Fryste a Manceinion, er enghraifft. Caiff cynorthwywyr dwyieithog eu hannog i ddilyn cymhwyster CGC lefel 2. Mae gofyn cael llawer o ymroddiad personol ar gyfer y cyrsiau hyn, ac mae'r amser a gymerir i'w cwblhau yn aml yn rhwystr i staff eu cyflawni. Mae'r diffyg cymwysterau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol yn ffactor arall sy'n peri rhwystr o ran cymhelliant staff.

13. ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH

Pan fydd arweinwyr a rheolwyr mewn cyswllt uniongyrchol â rheoli a chyflwyno gwasanaethau EMAG, mae yna weledigaeth glir a rheolaeth strategol dda. Mae hyn yn wir am benaethiaid gwasanaethau EMAG a gynhelir yn ganolog ac am uwch reolwyr mewn awdurdodau lleol lle mae yna niferoedd sylweddol o ddisgyblion SIY. Fodd bynnag, mewn gormod o awdurdodau lle nad oes llawer o ddisgyblion SIY, nid yw'r uwch swyddogion yn rhoi digon o sylw i oruchwylio'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion y disgyblion hyn. Mae hyn yn benodol wir mewn AALlau lle caiff gwasanaethau eu prynu i mewn o wasanaethau canolog a weinyddir gan awdurdod arall. Yn yr achosion hyn, mae'r rheolwyr wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb ar gyfer darpariaeth ac ni wnânt ddigon i sicrhau bod anghenion eu disgyblion SIY yn cael eu diwallu'n effeithiol.

Dengys nifer o benaethiaid lefel uchel o ymrwymiad i ddiwallu anghenion disgyblion o leiafrifoedd ethnig, ac maent yn fodlon â gweinyddiaeth ganolog a rheolaeth gwasanaethau lleiafrifoedd ethnig yr AALl. Mae'r rheolaeth ganolog a dyraniad adnoddau yn gweithio'n dda pan fydd yna gydweithrediad agos, cyswllt rheolaidd, a phartneriaeth wirioneddol yn gweithio gydag ysgolion. Fodd bynnag, er eu bod yn ymwybodol iawn o'r materion o fewn eu hysgolion a'u bod yn awyddus i fynd i'r afael â hwy, nid yw hi bob amser yn hawdd i benaethiaid ddylanwadu ar ddyraniad adnoddau. Ar y llaw arall, teimla rheolwyr gwasanaethau canolog nad ydynt bob amser yn gallu dylanwadu'n effeithiol ar y dulliau addysgu a ddefnyddir mewn ysgolion.

Yn gyffredinol, nid oes digon o gydweithredu rhwng staff peripatetig ac athrawon y brif ffrwd. Nid yw'r cynllunio ar y cyd rhwng staff EMAG a staff y brif ffrwd yn ddigon da. O ganlyniad, nid yw athrawon y brif ffrwd bob amser yn ymwybodol o nodau gwasanaethau EMAG.

Nid yw llawer o'r materion am gynnwys disgyblion SIY o fewn y cwricwlwm llawn wedi'u datrys o hyd. Mae gan AALlau ac ysgolion bolisïau gwahanol ar ddarparu

cynhaliaeth SIY sy'n amrywio o dynnu disgyblion o wersi yn y tymor hir i gynhaliaeth yn y dosbarth. Ym marn Estyn, mae cynhaliaeth tynnu o wersi yn y tymor byr a chynhaliaeth yn y dosbarth yn cynnal egwyddorion cynhwysiad. Mae gwasanaethau canolog yn rhoi cyngor ac arweiniad, ond nid oes ganddynt unrhyw reolaeth dros arfer unigol mewn ysgolion. Mewn nifer sylweddol o ysgolion, caiff disgyblion eu tynnu o wersi yn gyson o'r un pwnc neu bynciau, er enghraifft, Cymraeg, ac ystyria'r ysgol fod hyn yn briodol. Mewn ysgolion eraill, caiff disgyblion lleiafrifoedd ethnig, yn enwedig merched, eu cyfeirio at bynciau fel gwyddor tþ, lle mae'r ysgol yn ystyried y gallai'r gofynion iaith fod ar eu lleiaf, yn hytrach na'u gallu neu eu dewis pwnc personol. Ni roddir digon o flaenoriaeth i anghenion y disgybl unigol bob amser dros yr angen i reoli adnoddau.

Yn gyffredinol, ceir diffyg cyfle cyfartal ar gyfer disgyblion ar wahân. Mae hyn yn rhannol oherwydd yr angen i ganolbwyntio adnoddau mewn ysgolion lle mae yna niferoedd uchel o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig. Hyd yn oed mewn gwasanaeth mawr canolog, mae'n aml yn anodd symud adnoddau o gwmpas i fodloni anghenion newidiol ar fyr rybudd, yn enwedig pan fydd staff yn teimlo eu bod wedi ymsefydlu dros gyfnod mewn ysgol benodol. Gan fod y casgliad data o ysgolion mewn rhai achosion yn anghyflawn o hyd, nid yw gwasanaethau canolog yn gallu canolbwyntio ar anghenion disgyblion unigol gystal ag y dylent, o ran caffaeliad iaith a chyflawniad.

Mae amrywiaeth rhy eang led led Cymru o ran effeithiolrwydd rheoli perfformiad staff EMAG. Mae yna fathau amrywiol o systemau monitro perfformiad staff, gan gynnwys adolygiadau mewn rhai ysgolion, monitro gan arweinwyr clwstwr gwasanaeth canolog, a chynhwysiad mewn systemau canolog AALl fel Buddsoddwyr mewn Pobl. Nid yw'r staff EMAG sy'n monitro wedi'u hyfforddi ddigon bob amser i deimlo'n hyderus yn eu rôl.

Mae diffyg y gweithdrefnau adolygu effeithiol ar hyn o bryd yn golygu nad yw rheolwyr yn gyffredinol yn gwybod digon am gryfderau a gwendidau eu staff, ac nid ydynt felly'n gallu adnabod anghenion hyfforddiant a datblygiad ar lefel unigolion. Mae hyn yn arbennig o wir am awdurdodau sy'n prynu gwasanaethau i mewn, ac sydd â chyswllt cyfyngedig yn unig â staff EMAG.

14. Polisïau ar gydraddoldeb hiliol, SIY ac addysg amlddiwylliannol

Yn gyffredinol, nid yw rheolwyr a phenaethiaid EMAG yn rhoi digon o bwyslais ar hyrwyddo ymwybyddiaeth hiliol a chytgord yn eu hardaloedd. Mae'r adnoddau yn canolbwyntio ar ddysgu iaith ac ni ddefnyddir hwy yn ddigon dychmygus i hyrwyddo cyflawniad ehangach lleiafrifoedd ethnig neu ymwybyddiaeth hiliol. Mae diffyg cynllunio digonol ar y mater hwn yn golygu bod cyfleoedd i hyrwyddo agweddau cadarnhaol at amlddiwylliannau yn gyffredinol yn cael eu colli. Mae'r ysgolion lle mae niferoedd mawr o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig yn sylweddoli'r gwerth sy'n cael ei ychwanegu at ddysgu'r disgyblion trwy fanteisio ar amrywiaeth. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o benaethiaid yn manteisio ar yr adnodd naturiol hwn i wella dysgu a datblygu materion cymunedol ehangach.

Mae llawer o awdurdodau lleol yn penodi swyddog canolog i fod yn gyfrifol am gytgord hiliol a materion ymwybyddiaeth. Gweithia'r swyddogion hyn yn agos gydag ysgolion i gynghori ynghylch materion deddfwriaethol. Er bod hwn yn gam cadarnhaol ar ran

awdurdodau lleol, mewn rhai ysgolion, mae'n atgyfnerthu'r syniad nad cyfrifoldeb yr ysgol yw materion yn ymwneud ag ymwybyddiaeth hiliol. Mae gormod o uwch staff mewn ysgolion yn ystyried y rhain fel materion sydd ar wahân i addysgu a dysgu yn hytrach na materion sy'n hanfodol ar gyfer cyflawniad pob disgybl.

Mae mwyafrif helaeth yr ysgolion yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth o gael polisïau cydraddoldeb hiliol, ond mewn nifer o achosion, caiff y polisïau sy'n cael eu darparu gan yr awdurdod lleol eu mabwysiadu heb lawer o newidiadau i fodloni amgylchiadau penodol ysgolion unigol. Prin y cânt eu gweld fel dogfennau gweithredol sydd â chynlluniau gweithredu cysylltiedig.

Ychydig o ysgolion sydd â pholisïau ar Saesneg fel iaith ychwanegol ac addysg amlddiwylliannol. Pan ydynt ar gael, maent yn tueddu i fod yn gopïau o bolisïau sydd wedi eu darparu gan yr AALl, a chânt eu trin fel papurau polisi, nid fel dogfennau gweithredol.

15. Nawdd EMAG

Nid oes cysondeb yn y prosesau ar gyfer casglu data yn sail i ddyrannu nawdd EMAG. Mewn rhai AALlau, mae'r gweithdrefnau ar gyfer casglu data yn gadarn ac yn sicrhau cywirdeb. Mewn cyferbyniad, nid yw gweithdrefnau casglu data awdurdodau eraill yn ddigon dibynadwy i sicrhau bod y data yn ddilys.

Er enghraifft, yn yr awdurdodau a'r gwasanaethau gorau, caiff gwybodaeth am niferoedd disgyblion lleiafrifoedd ethnig mewn ysgolion ei monitro'n ofalus, ac mae staff EMAG yn cynorthwyo staff ysgolion i gasglu'r data. Mewn achosion eraill, fodd bynnag, nid yw'r AALlau na'r penaethiaid yn gwybod faint o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig sydd wedi eu cofnodi fel disgyblion sy'n mynychu eu hysgolion. Digwydd hyn fel arfer pan fydd y cyfrifoldeb am y gwasanaethau EMAG wedi'i drosglwyddo i ddarparwr arall. Yn yr achosion hyn, ymarfer ysgrifenedig yn aml yw casglu data, ac nid yw'n ymwneud yn ddigon agos â rheoli'r adnoddau i gynnal datblygiad anghenion disgyblion.

16. Dyrannu staff i ysgolion

Mae'r ffordd y mae AALlau yn dyrannu adnoddau i ysgolion yn anfoddhaol. Ychydig iawn o AALlau sy'n dyrannu adnoddau yn ôl fformiwla sy'n seiliedig ar niferoedd y disgyblion lleiafrifoedd ethnig sy'n mynychu ysgolion ac ar sail lefelau cynnydd o ran dysgu Saesneg. Nid yw penaethiaid bob amser yn ymwybodol o ar ba sail y dyrennir adnoddau. Mae diffyg data manwl, monitro anghyson a dyraniad adnoddau aneglur yn eu gwneud yn anodd iawn i farnu i ba raddau y mae gwasanaethau'n cynnig gwerth am arian.

17. Adnoddau ac adeiladau

Nid yw mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn dyrannu cyllideb ar gyfer SIY, ond byddant yn prynu deunyddiau pan gânt eu hargymell. Yn gyffredinol, mae'r adnoddau'n canolbwyntio ar addysgu Saesneg. Mae AALlau yn dadlau nad oes digon

o adnoddau i ehangu eu gwaith i gwmpasu tangyflawniad grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ac nid oes gan y rhan fwyaf y wybodaeth ystadegol fanwl i alluogi iddynt wneud hyn. Hyd yn oed lle mae systemau casglu data yn dda, nid ydynt wedi eu mireinio'n ddigonol i wahaniaethu cyflawniad mewn grwpiau hiliol heblaw yn ôl rhyw, felly mae hi'n anodd monitro perfformiad disgyblion. Hyd yma, nid oes systemau ar gyfer dyrannu adnoddau i ymateb i anghenion disgyblion unigol.

Mae ansawdd y deunyddiau addysgu i gynnal addysg SIY yn foddhaol. Nid yw'r deunyddiau addysgu bob amser yn cydweddu â'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu. Nid ydynt yn aml yn perthnasu i oedran, ac maent yn fwy addas ar gyfer disgyblion cynradd na disgyblion uwchradd. Mae'r diffyg deunyddiau gwahaniaethol a deunyddiau pwnc-benodol yn rhwystr i gyflawniad disgyblion. Nid yw staff y brif ffrwd bob amser yn ymwybodol o natur sensitif deunyddiau, ac maent yn delio â thestunau mewn modd amhriodol. Mae'r graddau y caiff athrawon eu hannog i ddefnyddio'r adnoddau hyn a monitro'u defnydd yn amrywio'n eang ledled Cymru.

Mae AALlau a darparwyr gwasanaeth yn dadlau nad oes ganddynt ddigon o adnoddau i ymestyn y gwasanaeth i fynd i'r afael â materion lleiafrifoedd ethnig. Nid ydynt eto wedi dechrau ailddyrannu adnoddau presennol i ryddhau staff i ganolbwyntio ar faterion yn ymwneud â chyflawniad. Dim ond un awdurdod sydd â gwybodaeth ddigon manwl i dargedu adnoddau'n effeithiol. Fodd bynnag, mae cynnydd yn cael ei wneud o ran casglu data a fydd yn galluogi AALlau ac ysgolion i ddatblygu gwasanaethau i roi cynhaliaeth i gyflawniadau lleiafrifoedd ethnig.

Llwydda rhai AALlau ac ysgolion i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag adnoddau trwy geisio cael nawdd arall ar gyfer mentrau y tu allan i'r ysgol a gwaith allgyrsiol gyda phobl ifanc sy'n ategu eu dysgu ffurfiol. Mae hyn yn cynnwys mentrau cadarnhaol mewn cymunedau a gwaith gyda rhieni a gofalwyr. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ni wneir digon o ddefnydd dychmygus o adnoddau i wella cyflawniad.

Yn gyffredinol, gwna ysgolion y defnydd gorau o'r adeiladau sydd ar gael ar gyfer addysgu SIY, ond yn aml, nid yw ansawdd a maint y lle yn ddigonol. Nid oes gan rai ysgolion, yn enwedig y rhai hynny â niferoedd mawr o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig ac adeiladau cynllun agored, ddigon o le i roi cynhaliaeth arbenigol, yn enwedig ar gyfer disgyblion newydd. Mae'r mannau lle cedwir adnoddau yn aml yn rhy llawn.